

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 4)

Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y caniateir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) yn Senedd y DU, yn Nhŷ'r Arglwyddi, ar 8 Mehefin 2022. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynglŷn â'r Bil ar 18 Awst, a Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3) ar 5 Hydref ac 17 Tachwedd.
3. Cyflwynodd Llywodraeth y DU 12 o welliannau ar 23 Hydref i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd. Mae 11 o'r gwelliannau yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y manylir ym mharagraffau 19 i 22 isod.
4. Gellir canfod dolenni i'r Bil fel y'i cyflwynwyd ac y'i diwygiwyd yn ystod pob cyfnod Seneddol yn **Atodiad 1**, yn ogystal â thabl sy'n amlinellu'r newidiadau i deitlau a rhifau cymalau wrth i'r Bil fynd drwy bob cyfnod. Mae'r cymalau y cyfeirir atynt yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn cael eu rhoi fel y'u nodir yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, a'i gyhoeddi yma ar 30 Tachwedd: [Y Bil Tai Cymdeithasol \(Rheoleiddio\) \[HL\] \(parliament.uk\)](#).

Amcan(ion) Polisi

5. Diben y Bil, fel y'i disgrifir, yw diwygio'r gyfundrefn rheoleiddio tai cymdeithasol yn Lloegr er mwyn ysgogi cryn newid yn ymddygiad landlordiaid fel eu bod yn canolbwyntio ar anghenion eu tenantiaid, a sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad.
6. Dyma amcanion craidd y Bil a ddatganwyd gan Lywodraeth y DU:
 - Hwyluso cyfundrefn reoleiddio ragweithiol newydd o ran defnyddwyr ym maes tai cymdeithasol
 - Mireinio'r gyfundrefn rheoleiddio economaidd bresennol ar gyfer tai cymdeithasol
 - Cryfhau pwerau'r Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol ("y rheoleiddiwr") i orfodi'r gyfundrefn o ran defnyddwyr a'r gyfundrefn economaidd.

Crynodeb o'r Bil

7. Noddir y Bil gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.
8. Mae'r Bil yn gwneud nifer o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Mae'r diwygiadau hyn yn sicrhau bod diogelwch a thryloywder yn chwarae rhan amlwg yn amcanion Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol Lloegr ac maent yn rhoi pwerau newydd i'r rheoleiddiwr mewn perthynas â thryloywder a darparu gwybodaeth.
9. Mae'r Bil yn ceisio cynnal a mireinio rôl rheoleiddio economaidd bresennol y rheoleiddiwr, gan sicrhau bod darparwyr cofrestredig o Loegr yn cael eu llywodraethu'n dda a'u bod mewn sefyllfa ariannol hyfyw i ddiogelu cartrefi a buddsoddi mewn cyflenwad newydd. Yn ôl Llywodraeth y DU bydd hyn yn cefnogi'r gwaith y mae'r rheoleiddiwr eisoes yn ei wneud, drwy greu sefydlogrwydd a hyfywedd parhaus yn y sector drwy reoleiddio economaidd cadarn. Y nod fydd annog buddsoddi parhaus yn y sector, drwy gefnogi'r gwaith o ddatblygu cartrefi newydd, a diogelu tenantiaid rhag risgiau ansolfedd darparwyr.
10. Mae'r Bil yn ceisio cryfhau rôl y rheoleiddiwr drwy roi pwerau gorfodi newydd iddo sy'n sicrhau y gall ymyrryd yn effeithiol pan fo angen, ac mae'r darpariaethau'n ceisio annog landlordiaid i gynnal safonau, osgoi bygythiad camau gorfodi, a sicrhau bod gan y rheoleiddiwr yr adnoddau priodol i ymdrin ag achosion o beidio â chydymffurfio â'r safonau.
11. Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 ("Deddf 2008"). Mae Rhan 2 o Ddeddf 2008 yn nodi'r gyfundrefn reoleiddio sy'n gymwys i dai cymdeithasol a ddarperir gan gyrff yn Lloegr, ac o'r herwydd dim ond i raddau bach iawn y mae'n gymwys yn ymarferol yng Nghymru. Mae darparwyr cofrestredig o Loegr, fodd bynnag, yn gyfrifol am rywfaint o'r stoc tai cymdeithasol yng Nghymru. Er na fydd darpariaethau'r Bil yn cael fawr o effaith o ystyried y nifer bach o ddarparwyr cofrestredig o Loegr sydd â stoc tai cymdeithasol yng Nghymru, mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud i Ddeddf 2008 serch hynny yn ymwneud â thai, sy'n fater datganoledig, i'r graddau y maent yn ymwneud â darparwyr cofrestredig sydd â stoc dai yng Nghymru, ac maent felly o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a ddaeth i law gan y Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol yn Lloegr yn cadarnhau bod 18 o ddarparwyr cofrestredig yn berchen ar tua 530 o gartrefi/unedau yng Nghymru, ac yn eu rheoli, a fydd yn ddarostyngedig i'r newidiadau a gynigir yn y Bil. At ei gilydd, darpariaeth anghenion arbennig gyda rhywfaint o anghenion cyffredinol a rhanberchnogaeth yw'r rhain.
12. Ceir rhagor o wybodaeth am y Bil yn yr [LCM cyntaf a osodwyd ar 18 Awst](#).

13. Dygodd Llywodraeth y DU 42 o welliannau ymlaen a dderbyniwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, ac fe'u trafodir yn fanwl yn [yr LCM atodol \(Memorandwm Rhif 2\)](#), a osodwyd ar 5 Hydref.
14. Roedd Memorandwm Atodol Rhif 2 yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydysniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil diwygiedig. Yn gryno, gwnaed y gwelliannau mwyaf arwyddocaol yn y meysydd canlynol:
- Gofyniad newydd bod rhaid i ddarparwyr hysbysu'r rheoleiddiwr pan fo rheolaeth y sefydliad yn newid mewn ffyrdd penodol;
 - Newidiadau i allu'r rheoleiddiwr i godi ffioedd i dalu costau;
 - Diwygiadau i ddyletswyddau Gwasanaeth yr Ombwdsmon Tai a chodi ffioedd ganddo;
 - Newidiadau i bŵer y rheoleiddiwr i benodi swyddog i fwrdd darparwr cofrestredig;
 - Newidiadau i'r seiliau dros ddefnyddio pwerau gorfodi.
15. Dygodd Llywodraeth y DU 33 o welliannau pellach a dderbyniwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, ac fe'u trafodir yn fanwl yn [yr LCM atodol \(Memorandwm Rhif 3\)](#), a osodwyd ar 17 Tachwedd.
16. Argymhellodd yr LCM Atodol (Memorandwm Rhif 3) y dylid rhoi cydysniad y Senedd i'r darpariaethau perthnasol o fewn y Bil fel y'i diwygiwyd. Dyma grynodedb o'r meysydd lle y gwnaed y gwelliannau mwyaf arwyddocaol, yn ogystal â gwelliannau mwy technegol i wella gweithrediad y gyfundrefn:
- Proffesiynoldeb – pŵer newydd i'r rheoleiddiwr er mwyn gosod safon ar faterion yn ymwneud â chymhwysedd ac ymddygiad staff, ac y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr ei gosod. Ychwanegwyd methiant neu risg o fethiant i fodloni'r safon hefyd, fel sail i'r rheoleiddiwr ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr baratoi a chyflwyno cynllun gwella perfformiad.
 - Effeithlonrwydd ynni – ychwanegwyd hyn at amcanion y rheoleiddiwr, a gwnaed newid i bŵer y rheoleiddiwr i osod safonau defnyddwyr, yn ogystal â newid pŵer cyfarwyddo'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â safonau'r rheoleiddiwr.
 - Arolygu – gosod dyletswydd ar y rheoleiddiwr i wneud cynllun sy'n nodi disgrifiadau o ddarparwyr cofrestredig sy'n ddarostyngedig i gael eu harolygu'n rheolaidd, yn nodi pa mor aml y bydd arolygiadau o'r fath yn digwydd, ac yn nodi'r amgylchiadau pan ddylai darparwyr cofrestredig gael eu harolygu ar wahân i'r arolygiadau rheolaidd. Gwneir hi'n ofynnol hefyd i'r rheoleiddiwr gymryd camau priodol i roi'r cynllun ar waith a'i adolygu'n barhaus.

Diweddariad ar y safbwynt ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydysniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 3) a osodwyd ar 17 Tachwedd

17. Ysgrifennodd y Farwnes Scott o Bybrook, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gymunedau, ataf ar 21 Tachwedd i dynnu fy sylw at y ffaith fod disgwyl i welliannau gael eu cyflwyno i ddileu gwelliant strategaeth effeithlonrwydd ynni Tŷ'r Arglwyddi, i egluro'r amgylchiadau lle

y byddai caniatâd i berson a awdurdodir gan y rheoleiddiwr adael cyfarpar ar fangre yn ystod arolygon neu gamau unioni brys, ac i ddileu darpariaeth benodol ar godi ffioedd am arolygiadau. Mae ei llythyr yn cadarnhau dadansoddiad Llywodraeth y DU bod y gwelliannau hyn yn 'rhychwantu Cymru a Lloegr ac yn gymwys iddynt, ac yn rhoi cychwyn i'r broses [cydsyniad deddfwriaethol] gan fod tai yn faes cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig.'

18. Yn ei llythyr, aeth yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau ati hefyd i dynnu fy sylw at newid ym marn Llywodraeth y DU ynghylch ei dadansoddiad o ran datganoli o gymal 11 (Safonau diogelwch trydanol), ac i nodi ymhle mae dadansoddiad Llywodraeth y DU o ran datganoli mewn meysydd eraill o'r Bil yn wahanol i'm dadansoddiad innau. Rwyf yn manylu ymhellach ar pwyntiau hyn ym mharagraffau 24–30 isod.

Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

Cymal 4 'Pŵer i godi ffioedd'

19. Mae cymal 4, a ychwanegwyd drwy welliant yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, yn diwygio adran 117 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008. Mae'r cymal hwn wedi cael ei ddiwygio i ddiddymu darpariaeth o fewn Deddf Tai ac Adfywio 2008 sy'n darparu pwerau penodol i alluogi'r rheoleiddiwr i godi ffioedd gan ddarparwyr cofrestredig tai cymdeithasol am arolygiadau, ac at ddibenion cysylltiedig â hynny. Argymhellais fod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymal 4 pan gafodd ei ychwanegu at y Bil oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwyf yn parhau o'r farn honno yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Dileu Cymal 'Safonau'n ymwneud â'r galw am ynni'

20. Mae cymal 24, a fewnosodwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, wedi cael ei ddileu o'r Bil. Roedd y cymal hwn yn newid adran 193 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 ar safonau'n ymwneud â materion defnyddwyr, gan ychwanegu safon yn ymwneud â'r galw am ynni, yn ogystal â chyflwyno gofyniad newydd ar y rheoleiddiwr i roi sylw i strategaeth Llywodraeth y DU ar leihau'r galw am ynni ar gyfer eiddo tai cymdeithasol. Er imi argymhell y dylid rhoi cydsyniad i'r cymal hwn pan ychwanegwyd ef at y Bil, nid yw'r cynnig i'w ddileu yn newid yn sylweddol fy marn y byddai'r Bil hwn yn arwain at effaith gadarnhaol ar denantiaid darparwyr cofrestredig Seisnig yng Nghymru. Yn sgil dileu'r cymal hwn, fodd bynnag, gofynnir i'r Senedd nodi felly nad oes angen cydsyniad bellach.

Cymal 27 (Cymal 22 ar adeg ei gyflwyno) 'Arolygon'

21. Mae'r cymal hwn yn ymwneud ag arolygon ac yn diwygio adrannau 199 a 200 o Ddeddf 2008 ac yn mewnosod adrannau newydd 199A a 199B i'r Ddeddf honno. Gwnaed gwelliannau i'r cymal hwn yn flaenorol yng

nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, ac mae gwelliannau pellach bellach wedi eu gwneud i egluro, tra bod arolwg yn cael ei gynnal, ymhle mae angen gadael cyfarpar neu ddeunyddiau ar fangreoedd. Gellir gadael cyfarpar mewn man lle mae'n amharu ar y defnydd o annedd neu rannau cyffredin dim ond os na ellir ei adael yn hytrach mewn mannau eraill ar y fangre lle na fyddai'r rhwystr hwn yn digwydd. Argymhellais fod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymal 22 fel y'i cyflwynwyd, ac fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Cymal 30 (Cymal 24 ar adeg ei gyflwyno) 'Camau unioni brys' (Gwelliannau llywodraethol 8-11)

22. Mae'r cymal hwn yn ychwanegu adrannau 225A i 225H ynghylch camau unioni brys at Ddeddf 2008. Gwnaed gwelliannau i'r cymal yn flaenorol yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, ac mae gwelliannau pellach bellach wedi'u gwneud i egluro, tra bod camau unioni brys yn cael eu cymryd, lle mae angen gadael cyfarpar neu ddeunyddiau ar safleoedd. Gellir ond ei adael mewn man lle mae'n amharu ar y defnydd o annedd neu rannau cyffredin os na ellir ei adael yn hytrach mewn mannau eraill ar y safle lle na fyddai'r rhwystr hwn yn digwydd. Argymhellais fod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymal 24 fel y'i cyflwynwyd, ac fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi, oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Barn Llywodraeth y DU am yr angen am gydsyniad

23. Mae Llywodraeth y DU, fel y nodir yn y llythyr a gefais gan yr Is-ysgrifennydd Seneddol dros Gymunedau ar 21 Tachwedd, yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar y gwelliannau a gyflwynwyd ar gyfer Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin (gweler paragraff 18, uchod), ond mae'n wahanol yn eu dadansoddiad o natur ddatganoledig nifer o gymalau eraill yn y Bil.

Cymal 11 (Safonau diogelwch trydanol)

24. Er iddo gael ei nodi'n wreiddiol fel maes yr oedd Llywodraeth y DU yn credu bod angen cydsyniad ar ei gyfer, mae'r Is-ysgrifennydd Seneddol dros Gymunedau wedi cynghori bod Llywodraeth y DU bellach wedi diwygio ei safbwynt:

'Nid ydym bellach yn ystyried bod cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn angenrheidiol ar gyfer y gwelliannau hyn, oherwydd er bod y ddarpariaeth yn rhychwantu Cymru a Lloegr, nid yw'r ddarpariaeth yn berthnasol i Gymru. Mae'r pŵer perthnasol a ddiwygiwyd gan y ddarpariaeth hon, adran 122 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016, yn

berthnasol i landlordiaid eiddo preswyl yn Lloegr yn benodol ac felly dim ond tai yn Lloegr sy'n cael eu heffeithio gan newid y Bil i'r ddarpariaeth hon.'

25. Ar ôl ystyried cymal 11 ymhellach, rwy'n cytuno â safbwynt presennol Llywodraeth y DU. Felly, hoffwn adolygu fy safbwynt mewn perthynas â chydysniad, ac nad oes ei angen mewn perthynas â chymal 11.

Cymalau 13 (Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig) a 14 (Ansolfedd darparwyr cofrestredig), Rhan 1 o Atodlen 1 (Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig: Diwygio Deddf Tai a Chynllunio 2016) ac Atodlen 2 (Diwygiadau i gyfyngiadau ar weithdrefnau ansolfedd)

26. Mae'r Is-ysgrifennydd Seneddol dros Gymunedau yn amlinellu yn ei llythyr bod y darpariaethau hyn yn diwygio Deddf Tai a Chynllunio 2016, ac mai barn Llywodraeth y DU yw nad oes angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y darpariaethau hyn, oherwydd:

'Mae'r drefn gweinyddu tai yn Rhan 4 Pennod 5 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016, a gwelliannau mewn perthynas â hi, yn ymwneud â mater ansolfedd, a gedwir yn ôl.'

27. Nodaf safbwynt Llywodraeth y DU, ond cadwaf fy argymhelliad gwreiddiol, sef fod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymal 13 a Rhan 1 o Atodlen 1, ac fy mod yn argymhell y dylai'r Senedd gytuno i gydsynio iddo.

Cymal 41 (Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol)

28. Mae'r Is-ysgrifennydd Seneddol dros Gymunedau yn amlinellu ymhellach yn ei llythyr nad yw Llywodraeth y DU yn ystyried bod angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â chymal 41:

'gan nad yw'r ddarpariaeth ei hun yn ddarpariaeth o sylwedd a chan fod cynnig cydsyniad deddfwriaethol wedi ei geisio ar gyfer y darpariaethau o sylwedd yn y Bil sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig ac y gellid defnyddio'r pŵer yng nghymal 41 mewn cysylltiad â hwynt.'

29. Eto, mewn perthynas â'r cymal hwn, nodaf safbwynt Llywodraeth y DU, ond yn cadw fy argymhelliad gwreiddiol, bod angen cydsyniad deddfwriaethol, ac y dylai'r Senedd gytuno i gydsynio iddo.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

30. Fel y nodir yn y memoranda cydsyniad deddfwriaethol blaenorol ar y Bil, cymharol ychydig (tua 530) o eiddo yng Nghymru y mae darparwyr cofrestredig Seisnig a fydd yn ddarostyngedig i'r newidiadau yn yr amgylchedd rheoleiddio a ddisgrifir gan y Bil yn berchen arno a/neu'n ei reoli.

31. Y bwriad at ei gilydd yw y bydd y Bil, fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, yn arwain at wella perfformiad darparwyr cofrestredig, yn cryfhau hawliau tenantiaid ac yn ysgogi newid yn ymddygiad landlordiaid er mwyn canolbwyntio ar anghenion tenantiaid, ac yn sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad. Bydd hyn yn arwain at newid cadarnhaol i holl denantiaid darparwyr cofrestredig Seisnig, gan gynnwys tenantiaid Cymru y bydd y newidiadau'n effeithio arnynt, ac felly rwy'n parhau'n fodlon y dylid gwneud y darpariaethau hyn mewn Bil gan Senedd y DU.

Goblygiadau Ariannol

32. Ni nodwyd unrhyw oblygiadau ariannol hyd yma pe bai'r darpariaethau hyn yn cael eu cymhwyso yng Nghymru.

Casgliad

33. Fel y nodir uchod, rwyf o'r farn bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y gwelliannau a gynigir i gymalau 4, 28 a 31 gan fod y newidiadau hyn i gyd yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (i'r graddau y maent yn berthnasol i ddarparwr cofrestredig o Loegr sydd â stoc dai yng Nghymru). Gofynnaf hefyd i'r Senedd nodi'r bwriad i gael gwared ar gymal 24 ac felly ni fydd angen cydsyniad y Senedd bellach ar gyfer y cymal hwn.
34. Yn ogystal, ymhellach i'r esboniad a nodir ym mharagraffau 24 a 25 uchod, hoffwn ddiwygio fy argymhelliad a wnaed yn yr LCM bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 11 (Safonau diogelwch trydanol).
35. Fel y nodir yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol rwyf wedi'i osod ar y Bil hwn hyd yma, rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU o ystyried y niferoedd bach o'r stoc tai cymdeithasol yng Nghymru y mae darparwyr cofrestredig yn Lloegr yn berchen arnynt neu'n eu rheoli. At hynny, mae'r cynigion yn y Bil yn ei gyfanrwydd, a hefyd yng ngwelliannau perthnasol Llywodraeth y DU a gyflwynwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, yn gadarnhaol i'r tenantiaid hynny yng Nghymru, gan eu bod yn diwygio'r gyfundrefn reoleiddio ym maes tai cymdeithasol drwy gryfhau hawliau tenantiaid ac ysgogi newid yn ymddygiad landlordiaid er mwyn canolbwyntio ar anghenion tenantiaid a sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad.
36. Rwyf felly'n argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.

Julie James MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
6 Rhagfyr 2022

Atodiad A – Tabl yn cymharu fersiynau o’r Bil

Y Bil fel y’i cyflwynwyd yn Nhŷ’r Arglwyddi ar 8 Mehefin:

[Y Bil Tai Cymdeithasol \(Rheoleiddio\) \[HL\] – Biliau Seneddol – Senedd y DU](#)

Y Bil fel y’i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ’r Arglwyddi ac y’i cyhoeddwyd ar 6 Medi:

[Y Bil Tai Cymdeithasol \(Rheoleiddio\) \[HL\] – Biliau Seneddol – Senedd y DU](#)

Y Bil fel y’i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ’r Arglwyddi ac y’i cyhoeddwyd ar 18 Hydref:

[Y Bil Tai Cymdeithasol \(Rheoleiddio\) \[HL\] – Biliau Seneddol – Senedd y DU](#)

Y Bil fel y’i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ’r Cyffredin ac y’i cyhoeddwyd ar 30 Tachwedd:

[Y Bil Tai Cymdeithasol \(Rheoleiddio\) \[HL\] – Biliau Seneddol – Senedd y DU](#)

Rhif y cymal wedi ei gyflwyno	Disgrifiad o’r cymal	Fel y’i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ’r Arglwyddi	Fel y’i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ’r Arglwyddi	Fel y’i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ’r Cyffredin
1	Amcanion sylfaenol	1	1	1
2	Panel cyngori	2	2	2
3	Casglu gwybodaeth	3	3	3
	Pŵer i godi ffioedd	4	4	4
4	Y gydberthynas rhwng y rheoleiddiwr a’r ombwdsmon tai	5	5	5
5	Ystyr “English body”	6	6	6
6	Meini prawf cofrestru	7	7	7
7	Dynodi	8	8	8

Rhif y cymal wedi ei gyflwyno	Disgrifiad o'r cymal	Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi	Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi	Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin
8	Dadgofrestru	9	9	9
9	Penodi arweinydd iechyd a diogelwch gan ddarparwr cofrestredig	10	10	10
10	Safonau diogelwch trydanol	11	11	11
11	Moratoriwm ar waredu tir	12	12	12
12	Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig	13	13	13
13	Ansolfedd darparwyr cofrestredig	14	14	14
14	Gofynion hysbysu: estyn i sefydliadau sy'n gwneud elw	15	15	15
	Trosi cwmni'n gymdeithas gofrestrdig: parhad cofrestriad		16	16
	Ailstrwythuro cymdeithasau cofrestredig		17	17
15	Trosglwyddo ymrwymadau o gymdeithas gofrestrdig	16	18	18
16	Hysbysu am newidiadau cyfansoddiadol	17	19	19
	Hysbysu am newid rheolaeth	18	20	20
	Safonau'n ymwneud â chymhwysedd ac ymddygiad		21	21
17	Safonau'n ymwneud â gwybodaeth a thryloywder	19	22	22
18	Cod ymarfer: safonau'n ymwneud â materion defnyddwyr	20	23	23

Rhif y cymal wedi ei gyflwyno	Disgrifiad o'r cymal	Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi	Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi	Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin
	Safonau'n ymwneud â'r galw am ynni		24	Wedi ei ddileu o'r Bil
19	Cyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol	21	25	24
20	Pwerau ymyrryd: dileu'r prawf niwed difrifol	Wedi ei ddileu o'r Bil		
	Methu â chyrraedd y safonau: arfer pwerau ymyrryd	22	26	25
21	Monitro perfformiad	23	27	26
22	Arolygon	24	28	27
	Cynllun Arolygu		29	28
23	Cynlluniau gwella perfformiad	25	30	29
24	Camau unioni brys	26	31	30
25	Estyn pwerau i elusennau nad ydynt wedi cael cymorth cyhoeddus	27	32	31
26	Hysbysu'r Comisiwn Elusennau pan arferir pwerau gorfodi	28	33	32
27	Arfer pwerau: tir â buddiant y Goron neu fuddiant y Ddugiaeth	29	34	33
28	Pwerau rheoleiddio a gorfodi: diwygiadau pellach	30	35	34
29	Gadael y stoc tai cymdeithasol: diwedd les	31	36	35
	Ystyr "subsidiary"	32	37	36

Rhif y cymal wedi ei gyflwyno	Disgrifiad o'r cymal	Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi	Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi	Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin
30	Apelau	33	38	37
31	Y cynllun Ombwdsmon Tai	34	39	38
32	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a darpariaeth ddarfodol	35	40	39
33	Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol	36	41	40
34	Rhychwant	37	42	41
35	Cychwyn	38	43	42
36	Enw byr	39	44	43
Atodlen 1	Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig	Atodlen 1	Atodlen 1	Atodlen 1
Rhan 1	Diwygio Deddf Tai a Chynllunio 2016	Rhan 1	Rhan 1	Rhan 1
Rhan 2	Diwygio Deddf Tai ac Adfywio 2008	Rhan 2	Rhan 2	Rhan 2
Atodlen 2	Diwygiadau i gyfyngiadau ar weithdrefnau ansolfedd	Atodlen 2	Atodlen 2	Atodlen 2
Atodlen 3	Pwerau rheoleiddio a gorfodi	Atodlen 3	Atodlen 3	Atodlen 3
Atodlen 4	Apelau	Atodlen 4	Atodlen 4	Atodlen 4
Atodlen 5	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a darpariaeth ddarfodol	Atodlen 5	Atodlen 5	Atodlen 5
Rhan 1	Deddf Tai ac Adfywio 2008	Rhan 1	Rhan 1	Rhan 1
Rhan 2	Deddfau eraill	Rhan 2	Rhan 2	Rhan 2
Rhan 3	Darpariaeth ddarfodol	Wedi ei ddileu o'r Bil		